**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref WQ88672

Rhys ab Owen AS
Rhys.abOwen@senedd.wales

11 Awst 2023

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn eich cwestiwn ysgrifenedig ynglŷn â thrafodaethau Llywodraeth Cymru gyda byrddau iechyd eraill i sicrhau bod darpariaeth debyg i'r cyfleuster Hwb Argyfwng 24/7, sef y gwasanaeth noddfa i blant a phobl ifanc a agorwyd yn ddiweddar yng Nghaerfyrddin, yn cael ei sefydlu yng Nghanol De Cymru.

Ariennir y cynllun peilot yng Nghaerfyrddin drwy'r Cytundeb Cydweithio ac mae gennym brosiect tebyg wedi'i gadarnhau ar gyfer Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae swyddogion wrthi'n trafod gyda byrddau iechyd eraill i ystyried opsiynau ar gyfer cynlluniau peilot eraill.

Rydym hefyd wedi dyrannu cyllid gwella gwasanaethau i fyrddau iechyd i gefnogi darpariaethau amgen i dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer materion iechyd meddwl. Drwy'r cyllid hwn, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi helpu'r elusen Platfform yn ddiweddar i agor yr 'hangout' ar gyfer pobl ifanc yng Nghaerdydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y ddolen hon: Yr Hangout - Platfform.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.